

Rôl y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

Canllawiau anstatudol

WG: 41888

Dyddiad cyhoeddi: 4 Ionawr 2021

Rôl y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

Cynulleidfa	Mae'r canllawiau yma ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru (sydd ddim yn ysgolion arbennig) a chyrff llywodraethu sefydliadau yn y sector addysg bellach yng Nghymru.
Trosolwg	Mae'r ddogfen yn cynnwys canllawiau anstatudol i gyrff llywodraethu ynglŷn â'r ddyletswydd i ddynodi Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol ac am y rôl ei hun.
Camau i'w cymryd	Bwriad y canllawiau yw cynorthwyo cyrff llywodraethu i ddeall eu dyletswydd gyfreithiol mewn perthynas â dynodi Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a rhoi arweiniad ar y rôl cyn i'r system ADY ddechrau ym mis Medi 2021.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Geraint Jones Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol Y Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caedydd CF10 3NQ Tel: 03000 253624 e-mail: SENReforms@gov.wales



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Rôl y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol	8
Cyflwyniad	4
Y ddeddf	4
Cod ADY	4
Y Rheoliadau	5
Canllawiau anstatudol	5
Defnyddio'r canllawiau hyn	6
Diffiniadau o dermau allweddol a ddefnyddir yn y canllawiau hyn	7
Rôl y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol	8
Y ddyletswydd ar ysgolion a sefydliadau addysg bellach i ddynodi CADY	8
Rôl y CADY	9
Cymwysterau a phrofiad a ragnodir ar gyfer CADYau	12

Cyflwyniad

Mae'r canllawiau canlynol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru nad ydynt yn ysgolion arbennig a chyrff llywodraethu sefydliadau yn y sector addysg bellach yng Nghymru. Mae'r canllawiau yn ymwneud â'u dyletswydd i ddynodi Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol ("CADY") o dan adran 60 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf"). Mae'r canllawiau hefyd yn ymwneud â rôl y CADY.

Anstatudol yw'r canllawiau hyn. Fodd bynnag, bwriedir iddynt gael eu hadlewyrchu'n fras yn y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)¹ statudol maes o law.

Y ddeddf

Mae'r ddeddf yn darparu ar gyfer y system gymorth statudol newydd ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed yng Nghymru ag anghenion dysgu ychwanegol ("system ADY"). Mae'r system ADY i ddisodli'r system anghenion addysgol arbennig ("AAA") bresennol (y darperir ar ei chyfer yn Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996) ac asesiadau plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anabledau dysgu mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16 (y darperir ar eu cyfer o dan adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000), ac mae'n cyflwyno'r term newydd 'anghenion dysgu ychwanegol' ("ADY"). O dan y system ADY, bydd gan blant ag ADY a phobl ifanc ac ADY mewn addysg bellach neu hyfforddiant, ni waeth pa mor ddifrifol neu gymhleth yw eu hanghenion, hawl i gael cynllun cymorth statudol o'r enw 'Cynllun Datblygu Unigol' ("CDU"). Bydd plant a phobl ifanc ag ADY yn cael cefnogaeth a elwir yn ddarpariaeth dysgu ychwanegol ("DDdY") a fydd yn cael ei nodi yn eu CDU. Nod Llywodraeth Cymru yw cychwyn y system newydd fesul cam o 1 Medi 2021².

Er mwyn i hyn ddigwydd, mae angen rheoliadau a Chod sy'n cael eu gwneud o dan bwerau yn y Ddeddf, sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau'r Senedd. Mae'r rheoliadau a'r Cod ADY yn cael eu paratoi ar hyn o bryd, yn dilyn ymgynghoriadau yn 2019 a 2020, gyda'r bwriad o'u gosod ar ffurf ddrafft gerbron y Senedd yn gynnar yn 2021.

Cod ADY

Bwriedir i'r Cod ADY osod gofynion ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru a sefydliadau yn y sector addysg bellach ("SABau") yng Nghymru a chynnwys canllawiau statudol ar gyfer y gwahanol awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Byrddau Iechyd Lleol, sydd â swyddogaethau o dan y Ddeddf.³

Er mwyn paratoi ar gyfer y system ADY sy'n dechrau o fis Medi 2021, bydd adrannau 60 – 62 o'r Ddeddf yn cychwyn ar 4 Ionawr 2021⁴. Gofynion ar gyfer llywodraethu, awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yw'r rhain i ddynodi personau i'r rolau swyddogion cydgysylltu ADY statudol newydd; sef y cydgysylltydd anghenion dysgu ychwanegol ("CADY") yn y naill

¹ I'w dyroddi gan Weinidogion Cymru o dan adran 4 o'r Ddeddf.

² Mae cyfeiriadau yn y canllawiau hyn at pryd y mae'r system newydd yn cychwyn neu'n dod i rym yn cyfeirio at pryd y daw swyddogaethau yn y Ddeddf ynghylch nodi a diwallu anghenion plant neu bobl ifanc unigol i rym. Cyn hynny, mae rhai agweddau ar y system newydd (gan gynnwys y dyletswyddau i benodi'r swyddogion statudol) yn cael eu dwyn i rym er mwyn paratoi ar gyfer y system newydd sy'n dod i rym.

³ Adran 4 o'r Ddeddf. Yn wir, mae rhai gofynion a chanllawiau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y Cod.

⁴ Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 1) 2020 (O.S. 2020/1182).

achos, Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynnyddoedd Cynnar yn yr achos wedyn, a'r SACDA yn yr achos olaf.

Y Rheoliadau

Er mwyn paratoi ar gyfer y system ADY sy'n cychwyn o fis Medi 2021, bydd Rheoliadau Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020 yn dod i rym ar 4 Ionawr 2021. Mae'r rheoliadau'n nodi'r cymwysterau neu'r profiad y mae'n rhaid i CADY eu cael. Maent hefyd yn nodi swyddogaethau CADY.

Canllawiau anstatudol

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau anstatudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ynghylch eu dyletswyddau i ddynodi CADY. Bwriad y canllawiau yw eu cynorthwyo i ddeall eu dyletswydd gyfreithiol mewn perthynas â'r dynodiad. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi gwybodaeth am rôl y CADY, gan gynnwys dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill CADY. Yn fras, mae'n adlewyrchu'r gofynion a'r canllawiau ynghylch y materion hyn y bwriedir iddynt fod yn y Cod ADY drafft y bydd Gweinidogion Cymru yn ei osod gerbron y Senedd i'w gymeradwyo.

Mae holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y CADY y mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn debygol y cânt eu cynnwys yn y Cod ADY wedi'u cynnwys yn y canllawiau hyn. Bydd modd i'r CADY gyflawni neu oruchwyllo rhai o'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau eraill a nodir isod cyn i'r system ADY ddod i rym. Er enghraifft, gweithio'n strategol gyda'r uwch dîm arweinyddiaeth a'r llywodraethwyr i sicrhau bod y lleoliad addysg yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf, y Cod hwn a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Fodd bynnag, ni fydd rhai o ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y CADY yn gallu cael eu cyflawni hyd nes y daw'r system ADY i rym. Mae'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau eraill wedi'u cynnwys yn y canllawiau hyn i roi darlun llawn o'r hyn y mae rôl y CADY yn debygol o'i olygu pan ddaw'r system ADY i rym. Fe'u cynhwysir hefyd i ddarparu gwybodaeth am sut y cyflawnir rôl y CADY, cyn i'r system newydd gychwyn.

Defnyddio'r canllawiau hyn

Lle defnyddir "**rhaidd**", mae hyn yn adlewyrchu ei bod yn ofyniad cyfreithiol gwneud y peth a ddisgrifir. Rhoddir ffynhonnell y gofyniad cyfreithiol mewn troednodyn i'r **rhaidd** hwnnw. Lle defnyddir "**dylai**" mae'r canllawiau yn awgrymu y dylid gwneud y mater oni bai bod gan y Bwrdd Iechyd Lleol reswm da dros beidio â'i wneud. Maes o law, gellir cynnwys y materion hyn yn y Cod fel canllawiau statudol. Pan fydd hynny'n digwydd, bydd yn golygu bod yn rhaid i'r awdurdod cyhoeddus y mae'r canllawiau ar ei gyfer ystyried y canllawiau statudol a'u dilyn oni bai ei fod yn gallu dangos bod cyfiawnhad dros beidio â gwneud hynny. Efallai y bydd disgwyl i'r awdurdod cyhoeddus egluro unrhyw achos o beidio â dilyn y canllawiau statudol.

Cyn i'r system ADY newydd gael ei chychwyn, y system AAA a'r gyfraith ar anawsterau a/neu anableddau dysgu sy'n parhau i fod yn gymwys a bydd yn parhau i fod yn gymwys mewn rhai achosion ar ôl Medi 2021 wrth i'r system newydd gael ei chyflwyno'n raddol. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus barhau i gydymffurfio'n llawn â'u dyletswyddau yn y system AAA cyn i'r system ADY ddechrau dod yn gymwys, ac ar ôl hynny pan fo dyletswyddau o dan y system AAA yn parhau i fod yn gymwys.

Diffiniadau o dermau allweddol a ddefnyddir yn y canllawiau hyn

Mae i "**anghenion dysgu ychwanegol**" ("**ADY**") yr ystyr a roddir gan adran 2 o'r Ddeddf, sef:

- (1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.
- (2) Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd—
 - (a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu
 - (b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15) sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.
- (3) Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn is-adran (2) pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol, neu y byddai'n debygol o fod felly pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud.
- (4) Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd.

Mae i "**darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY)**" yr ystyr a roddir gan adran 3 o'r Ddeddf, sef:

- (1) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran—
 - (a) mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru,
 - (b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu
 - (c) mewn mannau yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin.
- (2) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i blentyn sy'n iau na thair oed yw darpariaeth addysgol o unrhyw fath.
- (3) Yn is-adran (1), ystyr "addysg feithrin" yw addysg sy'n addas i blentyn sydd wedi cyrraedd tair oed ond sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol.

Plant a phobol ifanc

Mae "plentyn" yn golygu person nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol orfodol ac mae "person ifanc" yn golygu person sy'n hŷn na'r oedran ysgol orfodol, ond yn iau na 25 oed.

Rôl y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

Y ddyletswydd ar ysgolion a sefydliadau addysg bellach i ddynodi CADY

- 1.1. O Ionawr 2021, bydd **rhaidd**⁵ i bob ysgol brif ffrwd a gynhelir a sefydliad addysg bellach yng Nghymru ddynodi person, neu fwy nag un person a fydd yn gyfrifol am gydlyn darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY. Gelwir y person hwnnw (neu'r personau hynny) yn Gydlynnydd ADY neu CADY.
- 1.2. Gall fod yn briodol weithiau i rai lleoliadau addysg rannu CADY. Gallai hyn fod yn berthnasol, er enghraifft, mewn amgylchiadau lle mae meithrinfa a gynhelir ynghlwm wrth ysgol brif ffrwd; lle mae nifer o leoliadau bach mewn ardal leol; neu pan fo ffederasiwn o ysgolion o dan gyfrifoldeb un corff llywodraethu. Nid oes disgwyl i leoliadau mawr, fel sefydliadau addysg bellach, rannu CADY. Os oes trefniant rhannu ar waith, **dylai'r** corff (neu'r cyrff) llywodraethu perthnasol sicrhau, wrth gyflawni ei ddyletswydd i benodi CADY, fod y corff llywodraethu yn parhau i gyflawni ei gyfrifoldebau fel y'u nodir yn y Cod hwn. Dylai'r corff llywodraethu sicrhau y bydd y CADY yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn ffordd sy'n addas i strwythur ac anghenion y lleoliad addysg a'i ddysgwyr.
- 1.3. O dan eu ddyletswydd i ddynodi rhywun i fod yn CADY, **dylai** ysgolion a sefydliadau addysg bellach ystyried set sgiliau a phrofiad yr unigolyn i sicrhau ei fod yn gallu cyflawni'r swyddogaethau a ragnodir yn y gyfraith. **Dylai** fod gan pob CADY gymwysterau at lefel uchel (yn ogystal â'r cymhwyster a'r profiad y rhagnodir yn y gyfraith eu bod yn hanfodol – gweler "Cymwysterau a phrofiad a ragnodir ar gyfer CADYau" ym mharagraffau 1.23 – 1.25) a **dylai** fod ganddynt arbenigedd mewn ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion ac mewn ymdrin ag amrywiaeth eang o ADY. **Dylai** CADYau fynd ati i ddilyn hyfforddiant i gefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus. Gallant ddewis arbenigo mewn mathau penodol o ADY a rhannu'r arbenigedd hwn y tu allan i'w lleoliad addysg penodol.
- 1.4. Nid yw'r ffaith y dynodir CADY yn dileu cyfrifoldebau'r gweithlu ehangach; mae pob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag ADY yn gyfrifol am sicrhau bod anghenion eu dysgwyr yn cael eu hadnabod a'u diwallu.
- 1.5. Mae'n hanfodol bod gan y CADY amser ac adnoddau digonol i gyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol, gan gynnwys amser wedi'i neilltuo y tu allan i'r ystafell ddosbarth. **Dylai** pennaeth y lleoliad addysg sicrhau bod y CADY yn cael y gefnogaeth briodol. Drwy neilltuo amser clir a digonol, bydd modd sicrhau bod y CADY yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol. Wrth bennu digon o amser, **dylid** ystyried y nifer ar y gofrestr yn y lleoliad addysg sydd ag ADY a difrifoldeb yr ADY sydd gan y garfan honno o ddysgwyr.
- 1.6. Os yw rôl unigolyn fel CADY yn cael ei chyfuno â chyfrifoldebau eraill nad ydynt yn ymwneud ag addysgu, mae'n bwysig sicrhau bod y cyfrifoldebau eraill hynny yn gydnaws â'r ddyletswyddau y disgwylir i'r unigolyn eu cyflawni fel CADY ac na fyddant yn amharu ar ei allu i ymgymryd â rôl y CADY.

⁵ Adran 60 o'r Ddeddf

Rôl y CADY

- 1.7. Er bod pob athro ac aelod o'r staff addysgu yn addysgu plant a phobl ifanc ag ADY, y CADY yw'r unigolyn sy'n mynd ati ar lefel strategol i sicrhau bod anghenion pob dysgwr ag ADY yn y lleoliad addysg yn cael eu diwallu. Mae ei rôl yn un strategol o fewn y lleoliad addysg a [dylai](#), felly, naill ai fod yn aelod o'r uwch dîm arwain **neu** fod â llinell gyfathrebu glir i'r uwch dîm arwain⁶. Bydd hyn o gymorth i'r lleoliad wrth gynllunio, rheoli a chyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau o ran adnabod a diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ADY.
- 1.8. Er mwyn cefnogi'r CADY, dylai'r uwch dîm arwain gynghori, cefnogi a herio systemau a phrosesau'r lleoliad addysg i adnabod a diwallu anghenion dysgwyr. Gall yr awdurdod lleol gefnogi rôl y CADY, gan gynnwys darparu arweiniad lle bo hynny'n briodol.
- 1.9. Bydd angen i'r CADY gyfrannu at y gwaith o gydlynu adnoddau ADY mewn ffordd strategol, er enghraifft trefnu a chefnogi staff a gweithio gydag aelodau o'r uwch dîm arwain i gynllunio a phenderfynu ar yr adnoddau priodol sydd eu hangen i gefnogi staff yn y lleoliad. [Dylai](#) CADYau gymryd rhan weithgar mewn penderfyniadau yn ymwneud â chyllidebau ac adnoddau i helpu i gynllunio darpariaeth briodol.
- 1.10. Ni ddisgwylir i'r CADY gymryd rhan uniongyrchol yn y broses bob dydd o gefnogi dysgwyr unigol ag ADY. Yr athro dosbarth sy'n gyfrifol am wneud hynny, ond mae staff cymorth dysgu yn gallu helpu'r CADY i sicrhau bod athrawon yn cael eu cefnogi a bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu.

Dyletswyddau CADYau

- 1.11. Yn ogystal â'i gyfrifoldeb cyffredinol am gydlynu CDU ar gyfer myfyrwyr neu ddisgyblion ag ADY, mae'r CADY yn gyfrifol am sicrhau bod tasgau a nodir dan y pennawd hwn yn y bennod yn cael eu cyflawni. Gall CADY ddewis ymgymryd â'r tasgau hyn ei hun neu drefnu i dasgau gael eu cyflawni gan eraill.
- 1.12. Ni fydd gofyn i'r CADY ddatblygu pob CDU – ond bydd ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod CDU gan bob dysgwr sydd ag ADY yn y lleoliad addysg. **Rhaid**⁷ i CADY drefnu bod ADY y dysgwyr yn cael eu hadnabod a chydlynu'r broses o greu DDdY sy'n diwallu'r anghenion hynny.
- 1.13. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, [dylai](#) CADYau sicrhau, pryd bynnag y bydd gan eu lleoliad ddyletswydd i benderfynu a oes gan ddisgybl neu fyfyrwr ADY, fod rhywun wedi'i ddynodi i gydlynu'r camau sy'n ofynnol i wneud y penderfyniad hwn ac, os bydd angen CDU yn sgil hynny, i fod yn gyfrifol am ei lunio.
- 1.14. **Rhaid**⁸ i CADYau sicrhau eu bod yn cadw cofnodion o benderfyniadau ynghylch ADY. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnwys o fewn gofynion y Cod ar gyrff

⁶ Yr uwch dîm arwain yw'r pennaeth a'r uwch reolwyr sy'n rhannu'r cyfrifoldeb dros bob agwedd ar arwain a rheoli'r ysgol. Efallai y bydd rhai lleoliadau addysg yn defnyddio terminoleg wahanol i gyfeirio at yr uwch dîm arwain.

⁷ Rheoliad 5(a) a 6(a) o'r Rheoliadau Cydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020.

⁸ Rheoliad 5(c) and 6(c) o'r Rheoliadau Cydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020.

llywodraethu i gofnodi'r dyddiad pan dynnir sylw lleoliad addysg, neu pan fydd yn ymddangos iddo y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY, a gwneud hon yn rhan o dasgau'r CADY. Os gwneir hyn yn y Cod drafft ac mae'r Senedd yn cymeradwyo, yna byddai tasgau'r CADY yn ymestyn i hyn.

- 1.15. Mae ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i gynnwys gofynion yn y Cod ynghylch CADYau yn sicrhau bod yr holl ddogfennau a hysbysiadau perthnasol yn cael eu hanfon at gyfaill achos plentyn, neu at gynrychiolydd person ifanc neu riant plentyn, pan fo'n gymwys. Pan fydd gan blentyn gyfaill achos, bydd y dyletswyddau⁹ i hysbysu a rhoi gwybodaeth i'r plentyn a'r dyletswyddau¹⁰ i roi copi o gynllun neu gynllun diwygiedig yn gymwys i'r cyfaill achos yn hytrach nag i'r plentyn. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol cael rheoliadau ynghylch gweithredu'r Ddeddf ar gyfer achosion lle nad oes gan berson ifanc neu riant plentyn alluedd ac, ar ôl ymgynghori yn hydref 2020, mae rheoliadau'n cael eu paratoi ynghylch cynnwys cynrychiolydd i berson ifanc a rhieni heb alluedd.
- 1.16. **Rhaid**¹¹ i CADYau sicrhau gwasanaethau perthnasol a fydd yn cefnogi DDdY y dysgwr pan gytunir bod angen gwasanaeth o'r fath. Bydd angen cymorth asiantaethau a gweithwyr proffesiynol allanol ar rai dysgwyr ag ADY. Bydd y CADY yn gyfrifol am gydweithio â'r gwasanaethau arbenigol hyn a phan gytunir i ddarparu gwasanaethau o'r fath, am ofalu y cânt eu sicrhau.
- 1.17. **Rhaid**¹² i CADYau hyrwyddo'r arfer o gynnwys y dysgwr yng nghymuned yr ysgol/sefydliad addysg bellach a sicrhau bod cwricwlwm, cyfleusterau a gweithgareddau allgyrsiol y lleoliad ar gael iddo. Wrth wneud hyn (yn yr un modd ag wrth arfer ei holl swyddogaethau), **rhaid**¹³ i'r CADY roi sylw i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn a'i riant neu'r person ifanc.
- 1.18. **Rhaid**¹⁴ i CADYau fonitro effeithiolrwydd unrhyw DDdY. Er mwyn gwneud hyn, efallai y bydd y CADY am wneud defnydd effeithiol o'r systemau gwybodaeth reoli a ddefnyddir gan y lleoliad addysg i fonitro effaith ymyriadau ac asesu cynnydd o'i gymharu â deilliannau a gynlluniwyd ar gyfer pob dysgwr ag ADY. Os nad yw cynnydd y dysgwr yn bodloni'r disgwyliadau, **dylai'r** CADY a'r staff adolygu'r ymyriadau, a'u haddasu yn ôl yr angen.
- 1.19. **Rhaid**¹⁵ i CADYau roi gwybod i athrawon yn yr ysgol/sefydliad addysg bellach am ddulliau addysgu gwahaniaethol sy'n briodol i ddisgyblion unigol ag ADY.
- 1.20. **Rhaid**¹⁶ i CADYau oruchwylio a threfnu ar gyfer hyfforddiant gweithwyr cymorth dysgu sy'n gweithio gyda dysgwyr ag ADY. Gall gweithwyr cymorth dysgu fod yn adnodd pwysig i'r CADY pan fydd yn mynd ati i gydlyn darpariaeth cymorth ledled y lleoliad addysg. Gall gweithwyr cymorth dysgu ddarparu sgiliau arbenigol i gefnogi dysgwyr ag ADY, a byddant yn cynnig cymorth ymarferol a gweinyddol i'r

⁹ Adrannau 11(4), 13(3), 18(3), 22(2), 23(10), 24(9), 27(4), 28(4), 28(7), 31(7), 31(8), 31(9), 32(3), 40(4) and 42(6) o'r Ddeddf.

¹⁰ Adrannau 22(1), 23(11), 24(10) and 40(5) o'r Ddeddf.

¹¹ Rheoliad 5(b) a 6(b) o'r Rheoliadau Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020.

¹² Rheoliad 5(e) a 6(e) o'r Rheoliadau Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020.

¹³ Adran 6 o'r Ddeddf.

¹⁴ Rheoliad 5(j) a 6(j) o'r Rheoliadau Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020.

¹⁵ Rheoliad 5(g) a 6(g) o'r Rheoliadau Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020.

¹⁶ Rheoliad 5(h) a 6(h) o'r Rheoliadau Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020.

CADY. Mae'n bosibl na fydd yn briodol defnyddio gweithwyr cymorth dysgu ym mhob achos, fodd bynnag. Un yn unig ydynt o blith nifer o adnoddau a ddylai fod ar gael i gefnogi dysgwyr ag ADY.

- 1.21. **Rhaid**¹⁷ i CADYau gyfrannu at hyfforddiant mewn swydd i athrawon yn y lleoliad addysg i helpu'r CADY i gyflawni'r tasgau a nodir ym mharagraffau 8.12 i 1.14 a 1.16 i 1.18. Bydd y CADY yn chwarae rôl bwysig wrth roi cyngor ar y cymorth ehangach sy'n cael ei ddarparu yn y lleoliad addysg ac wrth gyfrannu at y cymorth hwn, ac ym maes dysgu proffesiynol ar gyfer aelodau staff eraill. Felly, mae'n hollbwysig ei fod yn gyfarwydd â'r wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau, cymorth a thystiolaeth o arferion gorau ym maes ADY.

Cyfrifoldebau eraill y CADY

- 1.22. Yn ogystal â'r tasgau gorfodol, **dylai** cyfrifoldebau allweddol y CADY gynnwys:

- goruchwyllo'r gwaith o weithredu trefniadau ADY y lleoliad addysg o ddydd i ddydd;
- goruchwyllo'r DDdY ledled y lleoliad addysg ar gyfer diwallu'r anghenion sydd wedi'u nodi mewn CDUau. **Dylai'r** CADY sicrhau bod adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r DDdY ar gyfer dysgwyr yn ei leoliad a, lle bo hynny'n briodol, arwain y broses adolygu i sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i ddiwallu'r anghenion a nodwyd;
- sicrhau bod CDUau yn cael eu datblygu a'u hadolygu'n briodol;
- cefnogi dysgwyr â CDU wrth iddynt bontio o un lleoliad addysg i un arall neu i fyd oedolion, astudiaethau pellach neu fyd gwaith;
- goruchwyllo'r broses o drosglwyddo gwybodaeth am ADY a DDdY y dysgwr yn briodol o un lleoliad addysg i'r llall;
- cysylltu â swyddogion arholiadau ac athrawon arbenigol wrth geisio addasiadau rhesymol ar gyfer arholiadau;
- cyfrannu at ddatblygu a chyflwyno gweithdrefnau a systemau ADY priodol yn y lleoliad addysg, gan gynnwys cynllunio ariannol strategol, defnyddio adnoddau yn effeithiol, a chasglu a dadansoddi data, â'r nod o wella deilliannau ar gyfer dysgwyr ag ADY;
- datblygu i fod yn ffynhonnell arbenigedd ym maes ADY drwy ddatblygu sgiliau a gwybodaeth arbenigol;
- bod yn ymwybodol o'r canllawiau a'r cymorth diweddaraf sydd ar gael ar gyfer ADY;
- gwella ei ddysgu proffesiynol ei hun drwy gadw mewn cysylltiad â'r rhwydwaith lleol o CADYau (**dylai** awdurdodau lleol ystyried sefydlu a hwyluso'r rhwydweithiau hyn) a, lle bo hynny'n briodol, drwy gadw mewn cysylltiad ag ysgolion arbennig i ddatblygu a rhannu profiad ac arferion gorau;

¹⁷ Rheoliad 5(i) a 6(i) o'r Rheoliadau Cydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020.

- sicrhau bod y cofnod o'i rôl a'i ddysgu proffesiynol sy'n rhan o'i fanylion cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg wedi'i ddiweddarau mewn perthynas ag ADY;
- darparu cefnogaeth broffesiynol ar gyfer pob aelod o staff fel bod modd adnabod achosion yn gynnar ac asesu a chynllunio ar gyfer dysgwyr ag ADY. Gall hyn gynnwys cefnogi staff i olrhain disgyblion ar lefel ysgol/sefydliad addysg bellach cyfan a'u helpu i reoli'r gwaith o osod targedau;
- sicrhau bod y trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith gan yr awdurdod lleol i osgoi a datrys anghytundebau yn cael eu defnyddio'n llawn fel sy'n briodol;
- gweithredu fel yr unigolyn cyswllt allweddol ar gyfer gwasanaethau cynhwysiant a chymorth yr awdurdod lleol perthnasol, asiantaethau allanol, sefydliadau annibynnol/gwirfoddol, gweithwyr ieuchyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, seicolegwyr addysg ac ati;
- trafod ag arbenigwyr gyrfaoedd i sicrhau bod dysgwyr ag ADY yn cael cyngor priodol ar yrfaoedd;
- gweithio mewn ffordd strategol gyda'r uwch dîm arwain a llywodraethwyr i sicrhau bod y lleoliad addysg yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf, y Cod hwn a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Cymwysterau a phrofiad a ragnodir ar gyfer CADYau

- 1.23. **Rhaid**¹⁸ i'r CADY mewn ysgol (ac eithrio yn yr amgylchiadau a nodir ym mharagraff 1.25) fod wedi'i gofrestru'n athro ysgol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Yn yr un modd, bydd angen i CADY sy'n gweithio mewn sefydliad addysg bellach fod wedi'i gofrestru'n athro addysg bellach gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.
- 1.24. **Rhaid**¹⁹ i'r CADY mewn ysgol fod wedi cwblhau cyfnod sefydlu statudol yn unol â'r gyfraith.²⁰ Y cyfnod sefydlu statudol a ragnodir ar gyfer unigolyn a gyflogir yn amser llawn yw tri thymor academiaidd. I'r rheini a gyflogir yn rhan-amser, rhaid dilyn 380 o sesiynau, sy'n cyfateb i dri thymor academiaidd. Er nad oes rheidrwydd ar athrawon sefydliadau addysg bellach i gwblhau cyfnod sefydlu statudol, **dylai** cyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach ystyried a oes gan yr unigolyn y profiad angenrheidiol i gyflawni rôl CADY.
- 1.25. Gall corff llywodraethu ysgol ddynodi unigolion yn CADY heb iddynt fodloni'r gofynion a nodir ym mharagraffau 1.23 ac 1.24, ond dim ond os oeddynt yn gweithredu fel cydlynwyr anghenion addysgol arbennig (cydlynwyr AAA) yn yr ysgol honno yn union cyn i Reoliadau Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020 ddod i rym²¹.

¹⁸ Rheoliad 3(a) a 4 o'r Rheoliadau Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020.

¹⁹ Rheoliad 3(a) o'r Rheoliadau Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020.

²⁰ Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015.

²¹ Rheoliad 3(b) o'r Rheoliadau Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020.